**PWYLLGOR NEWID YN YR HINSAWDD**
**DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024**

Minutes of the meeting of the Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd of Flintshire County Council held at Remote attendance meeting on Dydd Mercher, 17eg Ionawr, 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alasdair Ibbotson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Mared Eastwood, Chrissy Gee, Ian Hodge, Roz Mansell, Allan Marshall, Carolyn Preece, Dan Rose, Jason Shallcross a Sam Swash

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon, Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd, Swyddog Newid Hinsawdd, a Swyddog Bioamrywiaeth Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 36. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

## 37. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dan Rose a Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 38. ADOLYGIAD DEFNYDD TIR - AR GYFER BIOAMRYWIAETH, STORIO CARBON A LLINIARU LLIFOGYDD

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem i dderbyn cyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni i asesu dichonoldeb cynlluniau o fewn asedau tir y Cyngor ar gyfer atal llifogydd a sychder wrth wella bioamrywiaeth a chynyddu storio carbon.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd y byddai Molly Salter, Swyddog Newid Hinsawdd, a Sophie Roberts, Swyddog Bioamrywiaeth, yn rhoi cyflwyniad ar y cyd a fyddai'n cynnwys y prif bwyntiau canlynol:

- cefndir
- trosolwg o'r prosiect
- pwysigrwydd y prosiect
- argyfwng yr hinsawdd
- argyfwng natur
- nodau ac amcanion y prosiect
- methodoleg

- gwydnwch ecolegol
- dal a storio carbon
- risg hinsawdd ac addasu
- polisïau cenedlaethol a rhanbarthol
- polisïau'r Cyngor
- dull cydlynol

Ymatebodd swyddogion i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Dan Rose o ran data ar dir sydd ar gael, parthau clustogi, tir y mae Cyngor Sir y Fflint yn berchen arno, blodau gwyllt, bioamrywiaeth, coetir a dolydd. Ymatebodd swyddogion i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Allan Marshall hefyd o ran y system mapio llinellau-B a thorri gwrychoedd.

Cododd y Cynghorydd Dave Healey, Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, gwestiynau o ran datrysiadau bioamrywiaeth ar gyfer atal yr Afon Alun rhag llifo i fyny'r afon. Ymatebodd swyddogion i'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Healey ac eglurodd bod gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd â'r tîm rheoli llifogydd ar ddichonoldeb safleoedd ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Ymatebodd y Swyddog Rhaglen Newid Hinsawdd hefyd i'r sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Healey yn ymwneud â phrosiect Moel Famau, a chyllid ar gyfer prosiectau i ddatblygu gwaith pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cyflwyniad.

## 39. ALLYRIADAU CARBON FFERMIO YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd adroddiad ar allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â ffermio, a rôl y Cyngor i ddylanwadu ar arferion amaethyddol sy'n gadarnhaol o ran carbon. Darparodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif bwyntiau, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd i gwestiwn gan y Cynghorydd Dan Rose yn ymwneud â chontractau a ffermwyr sy'n denantiaid ac eglurodd bod gwahanol fathau o gontractau a bod cyfle i ddiweddaru telerau'r contract i gefnogi amcanion pan fydd angen eu hadnewyddu.

Ymatebodd y Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd i gwestiwn gan y Cynghorydd Eastwood yn ymwneud â chanran y ffermwyr sy'n denantiaid mewn perthynas â ffermio ar dir preifat, ac eglurodd nad oedd gwybodaeth ar gael ar-lein o ran lleoliad ffermydd preifat ac efallai y gallai Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ddarparu gwybodaeth bellach. Dywedodd y Cynghorydd Eastwood y byddai'r ail argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys Undeb Amaethwyr Cymru (FUW). Eiliodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson y cynnig a phan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi ymgysylltiad gyda ffermwyr sy'n denantiaid ar dir Cyngor Sir y Fflint, i ddeall eu harferion a gweithgareddau ffermio i fynd i'r afael ar newid hinsawdd; a

(b) Chefnogi ymgysylltiad gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), a chwmnïau hysbys, a ffermwyr preifat, i ddeall sut allwn ni ymgysylltu a hyrwyddo arferion gorau ar draws y Sir.

## 40. DIWEDDARIAD AR YMCHWILIADAU

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Ymchwiliadau Llifogydd a Phensiynau'r Pwyllgor a thrafod y camau nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y dyddiadau a oedd ar gael ar hyn o bryd i ddarparu gwrandawiadau i fynd i'r afael ar yr Ymchwiliadau. Cynigodd y Cadeirydd bod sesiynau yn cael eu trefnu ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd rhwng 12 a 16 Chwefror 2024 a chytunodd y Pwyllgor ar hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

## 41. EITEMAU A PHWRPAS RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Atodwyd y Rhaglen Waith gyfredol i'r rhaglen i'w hystyried. Bu i'r Cadeirydd wahodd Aelodau i awgrymu unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu cynnwys ar y Rhaglen drwy e-bost i'r Cadeirydd neu'r Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhaglen Waith yn cael ei mabwysiadu.

## 42. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.03am)

……………………………………………

**Chairman**